**GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A465 (CYLCHFAN GLANBAIDEN I GYFNEWIDFA HARDWICK, Y FENNI) (GWAHARDD CERBYDAU DROS DRO) 2026**

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Mae angen y Gorchymyn oherwydd y tebygolrwydd o berygl i'r cyhoedd oherwydd gwaith a wneir i adnewyddu cymal pont a gwaith cynnal a chadw arferol ar gerbytffordd cefnffordd yr A465 rhwng Cylchfan Glanbaiden a Chyfnewidfa Hardwick, neu gerllaw iddi.

Effaith y Gorchymyn arfaethedig fydd gwahardd dros dro bob cerbyd, ac eithrio'r rhai a ddefnyddir gan y gwasanaethau brys ac ar gyfer y gwaith, rhag mynd ar y darnau o'r A465 a ddisgrifir yn yr Atodlen i'r Hysbysiad hwn. Disgrifir y trefniadau ar gyfer llwybrau eraill hefyd yn yr Atodlen i'r Hysbysiad hwn.

Daw'r Gorchymyn i rym ar 15 Mehefin 2026. Disgwylir y bydd y gwaharddiad dros dro yn weithredol dros nos o 20:00 o'r gloch ac yn parhau tan 06:00 o'r gloch ar 17 Mehefin 2026, neu hyd nes y caiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol.

Dim ond yn ystod y cyfnod a bennir uchod y disgwylir i'r Gorchymyn fod yn weithredol. Er hynny, bydd yn parhau'n ddilys am gyfnod o 18 mis ar y mwyaf rhag ofn y bydd angen ailamserlennu'r gwaith neu wneud gwaith canlyniadol neu waith arall.
Bydd hysbysiad am unrhyw newidiadau i'r amseroedd a'r dyddiadau yn cael ei arddangos cyn gwneud unrhyw waith a ailamserlennir.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru ar https://llyw.cymru/gorchmynion-ffyrdd.

**Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.**

**C WYNN**
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

**THE A465 TRUNK ROAD (GLANBAIDEN ROUNDABOUT TO HARDWICK INTERCHANGE, ABERGAVENNY) (TEMPORARY PROHIBITION OF VEHICLES) ORDER 2026**

The Welsh Ministers have made an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984, which is necessary due to the likelihood of danger to the public because of bridge joint renewal and routine carriageway maintenance works being undertaken on or near the A465 trunk road between Glanbaiden Roundabout and Hardwick Interchange.

The effect of the proposed Order will be to temporarily prohibit all vehicles, other than those being used by the emergency services and for the works, from proceeding on the lengths of the A465 described in the Schedule to this Notice. The alternative route arrangements are also described in the Schedule to this Notice.

The Order comes into force on 15 June 2026. The temporary prohibition is expected to operate overnight from 20:00 hours and remain until 06:00 hours on 17 June 2026, or until the temporary traffic signs are permanently removed.

Although the Order is only expected to operate during the period specified above, it will remain valid for a maximum period of 18 months as a contingency should the work need to be rescheduled, or consequential work is required. Notice of any changes to times and dates will be displayed before any rescheduled work begins.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at https://gov.wales/road-orders.

**A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.**

**C WYNN**
Transport
Welsh Government

## YR ATODLEN

### Gwahardd Dros Dro Bob Cerbyd

1. Y darn o gerbytffordd tua'r gorllewin y gefnffordd sy'n ymestyn o'i chyffordd â'r gerbytffordd gylchredol wrth Gylchfan Hardwick hyd at drwyniad y ffordd ymuno tua'r gorllewin wrth Gylchfan Glanbaidden.

2. Y darn o gerbytffordd tua'r dwyrain y gefnffordd sy'n ymestyn o drwyniad y ffordd ymadael tua'r dwyrain wrth Gylchfan Glanbaiden hyd at ei chyffordd â'r gerbytffordd gylchredol wrth Gylchfan Hardwick.

### Llwybrau Eraill

1. Y llwybr arall ar gyfer traffig sy'n teithio tua'r gorllewin yw cymryd yr A40 drwy ganol tref y Fenni tuag at Aberhonddu. Wrth Gylchfan Tarrell, ymuno â'r A470 tuag at Ferthyr Tudful. Wrth Gylchfan Cefn Coed, ymuno â'r A465 tua'r dwyrain tuag at y Fenni.

2. Y llwybr arall ar gyfer traffig sy'n teithio tua'r dwyrain yw cymryd yr A465 tua'r gorllewin i Gylchfan Cefn Coed. Yna ymuno â'r A470 tuag at Aberhonddu. Wrth Gylchfan Tarrell, ymuno â'r A40 tua'r dwyrain tuag at Gylchfan Hardwick, y Fenni.

## SCHEDULE

### Temporary Prohibition of all Vehicles

1. The length of westbound carriageway of the trunk road that extends from its junction with the circulatory carriageway at Hardwick Roundabout to the nosing of the westbound on slip road at Glanbaidden Roundabout.

2. The length of the eastbound carriageway of the trunk road that extends from the nosing of the eastbound off slip road at Glanbaiden Roundabout to its junction with the circulatory carriageway at Hardwick Roundabout.

### Alternative Routes

1. The alternative route for westbound traffic is to take the A40 through Abergavenny town centre towards Brecon. At Tarrell Roundabout, join the A470 towards Merthyr Tydfil. At Cefn Coed Roundabout, join the A465 eastbound towards Abergavenny.

2. The alternative route for eastbound traffic is to take the A465 westbound to Cefn Coed Roundabout. Then join the A470 towards Brecon. At Tarrell
Roundabout, join the A40 eastbound towards Hardwick Roundabout, Abergavenny